

COFNODION PWYLLGOR ARBENNIG CYLLID A DATBLYGU
CHWEFROR 25 2021

1. Ymddiheuriadau :- Cyng Simon Brooks, Cyng Ian Jones, Cyng Nia Jeffreys
Presennol :- Cyng Gwilym Jones (Cadeirydd), Cyng Selwyn Griffiths, Cyng Jason Humphreys, Cyng Aled Griffith

2. Goleuadau Nadolig 2021

Eglurodd y Clerc iddi dderbyn galwad ffôn gan Gareth Griffiths yn ei hannog i archebu bylbiau newydd ar gyfer goleuadau Nadolig rhagblaen yn hytrach nag aros tan ddiwedd y flwyddyn.

Penderfynwyd : awdurdodi'r Clerc i archebu'r bylbiau.

Cafwyd trafodaeth ynglyn â goleuadau Nadolig Tremadog a'r costau ychwanegol am eu yswirio.

Penderfynwyd :-

- y byddai'r Cyngor Tref yn cymryd perchnogaeth o oleuadau Nadolig Tremadog
- y byddai'r Cyngor Tref yn prynu unrhyw oleuadau newydd i Dremadog a bod Tremadog 200 yn rhoi cyfraniad ariannol tuag atynt fel Caru Port
- y byddai'r Clerc yn gwirio polisi yswiriant y Cyngor er mwyn diweddarau rhestr asedau'r Cyngor

3. Cynllun Canol Tref

Penderfynwyd :-

- holi cwmni lleol o Benygroes designersignsnorthwales.com am amcanbris i osod hysbysfwrdd o flaen y parc
- rhoi hawl gweithredol i'r Clerc i fynd ymlaen â'r pryniant/grant yn ôl cynnig Cyng Jason Humphreys, Cyng Selwyn Griffiths yn eilio.

4. Biliau i'w talu

Eglurodd y Clerc fod £44,592.05 yn y Cyfri Cyfredol a bod gwerth £5,364.78 o sieciau heb eu clirio.

Cyfanswm felly o £39,227.27 yn weddill.

Awdurdodwyd y taliadau canlynol :

1	Gardencraft	Ail-blannu bareli blodau ar y Stryd Fawr	£	120.00
2	B2 Business Systems	Llungopïo	£	31.78
3	Calon Hearts	2 x Ddiffibriliwr	£	2,807.00

5. Ceisiadau/ materion Cynllunio :

a) ebost 5.2.21

Rhif Cais :C21/0089/44/LL

Lleoliad: Flat, 47 Stryd Fawr, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LR

Bwriad : Newid defnydd y llawr cyntaf a'r ail lawr o ddefnydd A3 i ddefnydd C3

fel fflat

Penderfynwyd : dim gwrthwynebiad ar yr amod mai defnydd lleol yn unig fydd ar y fflat.

(b) ebost 5.2.21

Rhif Cais : C21/0104/44/CC

Lleoliad : 3 Morfa Lodge, Porthmadog,

Bwriad : Gwaith tocio coed o dan Orchymyn Gwarchod Coed

Penderfynwyd : dim gwrthwynebiad

(c) ebost 8.2.21

Rhif Cais.: C20/0965/44/LL

Lleoliad: Tŷ Gweirion, 35 Y Ffridd, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YR

Bwriad: Trosi modurdy i salon harddwch

Penderfynwyd : dim gwrthwynebiad ar yr amodau canlynol :-

- Dim arwyddion allanol tu allan i'r adeilad
- Fod cwsmeriaid yn parcio mewn mannau parcio dynodedig
- Fod cwsmeriaid yn mynychu ar amser cyfyngedig i oriau gwaith 9am – 5pm

6. Unrhyw fater arall

Penderfynwyd:- edrych i mewn i'r posibilrwydd o dalu cyfraniadau ariannol y flwyddyn nesaf trwy gyfrwng BACS.

Eglurodd y Clerc iddi dderbyn 5 ymholiad ynglyn â'r tendr torri llwybrau a bod amser yn brin i drafod y tendrau gan mai Mawrth 15fed yw'r dyddiad cau.

Penderfynwyd :-

- Cynnal Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Cyllid ac Eiddo yn fuan wedi'r 15fed er mwyn cynnig cytundeb erbyn Ebrill 1af.
- Y Clerc i anfon copi o'r pecyn gwybodaeth llwybrau i'r Pwyllgor Cyllid ac Eiddo.
- Rhoi'r llwybr o Gapel Peniel i Lôn Haearn Bach ar agenda y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cyllid ac Eiddo.
- Rhoi'r llwybr rhwng Fferm Penmount a'r Clwb Chwaraeon ar agenda'r cyfarfod llawn nesaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.50.